RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd yn rhithiol ar 21 Gorffennaf, 2020

Yn Bresennol: Cynghorwyr G O Jones, R Ll Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Murley Roberts, P S Rogers (Cadeirydd), John Griffith a Mendoza (Aelod Lleyg)(Is-Gadeirydd)

Aelod Lleyg: Mr Dilwyn Evans

Wrth Law: Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Pennaeth Risg ac Archwilio Mewnol (MP), Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM) (ar gyfer eitem 4), Swyddog Pwyllgor (ATH)

Ymddiheuriadau: Cynghorydd Richard Griffiths

Hefyd yn Bresennol: Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd), Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio - Cyllid), Mr Alan Hughes (Arweinydd Archwilio – Archwilio Cymru), Y Prif Weithredwr, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Rheolwr Cyllid (CK), Prif Archwiliwr (NRW), Uwch-archwiliwr (BJ), Pennaeth y Gwasanaeth Democrataidd, Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

(2:00 y. p. tan 4:30 y .p.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**1 Datganiad o Ddiddordeb** Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Ni dderbyniwyd datganiad o ddiddordeb.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol** Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraeth a gynhaliwyd 11 Chwefror, 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**3 Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys 2019/20** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd – • Nodi y bydd y ffigurau alldro yn yr adroddiad yn parhau i fod yn rhai dros dro nes bod gwaith archwilio Datganiad Cyfrifon 2019/20 wedi'i gwblhau a'i lofnodi. Byddir yn nodi, fel y bo'n briodol, unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigurau a gynhwysir yn yr adroddiad. • Nodi dangosyddion darbodus dros dro a rhai'r trysorlys am 2019/20 yn yr adroddiad. • Derbyn adroddiad yr Adolygiad

	Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys am 2019/20, a'i argymell i'r Pwyllgor Gwaith heb wneud sylw.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**4 Datganiad o'r Cyfrifon Drafft 2019/20** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynwyd nodi'r prif ddatganiadau ariannol nad oedd wedi'u harchwilio ar gyfer 2019/20. CAMAU YCHWANEGOL A GYNIGIR: • Cyflwyno'r Cod Llywodraethu Lleol i'r Pwyllgor maes o law cyn iddo gael ei adolygu a'i ddiweddaru. • Bod y Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn gofyn i'r Prif Weithredwr / yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth ystyried priodoldeb gwahodd dau Aelod Lleyg y Pwyllgor i'r sesiynau briffio misol i bob aelod ar ddatblygiadau mawr.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**5 Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2019/20** Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20 a nodi bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn fodlon â digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol ar yr amod y câi rheolaethau mewnol eu cyflwyno a / neu eu gwella mewn rhai meysydd. NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**6 Archwilio Allanol - Cynllun Archwilio Drafft 2019/20** Adroddiad gan Archwilio Allanol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi a derbyn Cynllun Archwilio Drafft yr Archwiliad Allanol am flwyddyn archwilio 2019/20. CAM YCHWANEGOL - Bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn adrodd yn ôl er mwyn egluro'r anghysondeb rhwng y ffigur ar gyfer ffioedd archwilio a ddangosir yng nghyfrifon 2019/20

	a'r ffigur a ddangosir yn y Cynllun Archwilio drafft.